# Safbwyntiau

## Bwriad Dysgu

- Creu llinell farn.
- Dysgu gwerthuso eu barn eu hunain a barn eraill mewn ffordd ddifyr.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Saesneg -** Cyfathrebu, yn glir ac yn hyderus, gan fynegi barn ac addasu'r sgwrs yn ôl diben a chynulleidfa, gan ddefnyddio ystum, goslef a chywair yn briodol i gynnwys y dysgwr.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Trafod problemau mae plant yn ymwybodol ohonynt yn eu hardal.
- Cyflwyno senario - dangos y 'toriad o bapur newydd'
- Trafod gyda'r plant beth ddylai ddigwydd nesaf yn eu barn hwy.
- Trafod dadleuon o blaid ac yn erbyn y datblygiad.
- Cyflwyno safbwyntiau gwahanol.
- Gallech chwarae rôl mewn grwpiau o 4/5.
- Beth am ddefnyddio'r barnau i ddatblygu syniadau ar gyfer ysgrifennu perswadiol neu greu poster?

## Adnoddau

Rhaff hir, megis rhaff sgipio.

Y ‘toriad o bapur newydd’

Taflenni safbwyntiau cymeriadau

# Safbwyntiau

**Amlinelliad o'r Wers**

- Darllen y toriad o bapur newydd gyda’r disgyblion.
- Trafod y cynnig "Mae cwmni adeiladu yn eisiau adeiladu 100 fflat newydd ar lan y môr yn Aberafan."
- Darllen safbwyntiau’r cymeriadau gyda'r disgyblion.
- Pegiwch un o'r datganiadau ar y rhaff sgipio/lein ddillad - ac annog y disgyblion sy'n cytuno i sefyll wrth ei hochr.
- Parhau gyda'r datganiadau eraill.

# Cartrefi Traeth Newydd?

Mae trigolion yn hynod grac ynghylch y caniatâd cynllunio a gymeradwywyd i fawrion y byd adeiladu, "Brown Homes", i adeiladu bloc newydd o fflatiau ar lan y môr.  Byddai'r bloc yn golygu y byddai 100 fflat neu gartref newydd yn llenwi llawer o'r gofod gwag ar lan y môr.  Mae Brown Homes yn dweud y byddai'r datblygiad newydd yn creu mwy na 300 o swyddi, i ddylunwyr, adeiladwyr a labrwyr, er nad ydynt yn siŵr os bydd y swyddi i bobl leol.

Meddai Brown, y prif bensaer a pherchennog, "Dyma gyfle gwych i'ch ardal. Byddwch yn gweld manteision pobl busnes yn symud i'r ardal, i fyw yn ein fflatiau moethus, modern, newydd."

Nid yw'r trigolion mor siŵr. Mae llawer yn credu y byddai glan y môr yn cael ei dinistrio.  Mae sefydliadau bywyd gwyllt lleol hefyd yn pryderu bod y cynefinoedd glan y môr yn lleihau.  Bydd cyfarfod lleol yn neuadd y dref nos Wener nesaf.

**Galwch heibio i fynegi'ch barn.**




Miss Pirie

Rydw i'n byw ac yn gweithio yn y dref leol.  Rwy'n dwlu ar ddod i lan y môr ar y penwythnos, ac yn mwynhau'r awyrgylch yma yn y nos.  Byddwn i'n dwlu ar fyw yma. Rwy'n siŵr y byddai pobl sy'n gweithio mewn swyddi proffesiynol fel fy un i yn dod ag arian i'r ardal.


Mr Pittman - Syrffiwr

Na!
Allwch chi ddim dinistrio'r ardal drwy adeiladu cyfadeilad tai enfawr yno. Beth am y bywyd gwyllt lleol?  Rwyf wedi gweld llawer o grancod, gwylanod a sêr môr wrth ymweld â'r y traeth.  Mae'r twyni tywod yn wych ar gyfer cerdded yn y cyfnos. Rwy'n siŵr y byddai rhaid cael gwared ar hynny oll.
Mae'n drist.


Mr Shingleton -Adeiladwr

Dydw i ddim wedi cael unrhyw waith contract ers amser hir. Mae'r farchnad adeiladu'n gwaethygu - a busnesau bach fel fy un i sy'n dioddef fwyaf.  Rydw i, am un, yn croesawu'r cynigion newydd. Byddai'n sicrhau gwaith a chyflog i'm bechgyn am flynyddoedd i ddod.



Mr Evans - Datblygwr

adeiladwrGadewch i mi ddweud yn gyntaf, bydd tai newydd yn dod â llwyth o swyddi adeiladu newydd.  Mae cartrefi fy nghwmni i yn fflatiau modern a smart, a byddai hynny'n sicr yn denu busnesau newydd a phobl i'r ardal.  Bydd hyn yn hwb enfawr i'r economi lleol!

Mwy o gartrefi newydd?  Dydych chi ddim o ddifrif!  Mae glan y môr yn llawn tai eisoes, fydd dim byd ar ôl cyn hir! Beth am y sŵn wrth adeiladu, rwy'n gweithio'n ystod y nos!  Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw y bydd fy ngolygfa dros lan y môr yn cael ei rhwystro gan floc enfawr o fflatiau.



Mr Knight - Preswylydd Lleol



Mrs Mason - Preswylydd Lleol

Mae glan y môr yn wych ar hyn o bryd. Mae gan yr ardal leol lefydd hyfryd i ymweld â hwy ac i gerdded ynddynt.  Gyda chyfadeilad enfawr newydd, gallaf weld mwy o leoedd di-fynediad, heb unrhyw le i blant gael chwarae.

# Taflen Asesu

**Tasg**

| |
|---|
| |

**Sgil Targed**
Ysgrifennu mewn modd sy'n cyflwyno gwybodaeth ac yn darbwyllo, drwy amrywiaeth o ddulliau perswadiol.

| | **Hyderus** | **Wedi ceisio** | **Ansicr** |
|---|---|---|---|
| Ydw i wedi ymgynghori ag amrywiaeth o adnoddau i ddod o hyd i enghreifftiau o ddulliau perswadiol? (llyfrau, cylchgronau, posteri) | | | |
| Ydw i wedi defnyddio'r hyn a ddysgais am iaith berswadiol wrth ysgrifennu? | | | |
| Ydw i wedi defnyddio unrhyw ddulliau perswadiol?<br><br>Pa ddulliau perswadiol ydw i wedi eu defnyddio? Gwnewch restr yma: | | | |
| Ydw i wedi cynnwys y ffeithiau am y cynnig? | | | |
| Ydw i wedi cynnwys barn pobl? | | | |
| Ydy fy mhoster neu fy llythyr yn cyflwyno gwybodaeth ac yn darbwyllo? | | | |
| Ydw i wedi cynnwys delweddau trawiadol? | | | |